CYNGOR CYMUNED  YSTRAD FFLUR

**COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG I DARFOD ARGYFWNG WCRÁIN A CHEISIO FFYRDD O ESTYN HELP LLAW, A GYNHALIWYD YN LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AR Y 12.05.2022 AM 7.30PM.**

## CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cynghorydd Gareth Owen bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac esboniodd ei fod wedi'i drefnu mewn ymateb i anerchiad Jasmine Wilson yng nghyfarfod diwethaf y cyngor cymuned, ble'r oedd wedi gofyn i aelodau i arwain y gymuned wrth drefnu gweithgareddau codi arian,  er mwyn helpu pobl yr Wcráin.

Dywedwyd bod llawer o unigolion a sefydliadau'r gymuned eisoes wedi cyfrannu at yr achos.

**Yn bresennol a'r Sefydliad a gynrychiolwyd (os yn berthnasol)**

Ieuan Davies Cyngor Cymuned Ystrad Fflur

Jên Ebenezer Merched y Wawr, Capel Rhydfendigaid

Sioned Fflur

Chris Harris Coed y Bont

Chris Huckstep

Gill Huckstep

Del a Kate

Clare Hughes Pwyllgor y Neuadd

Elen T Jones  Merched y Wawr; Capel Carmel.

Neli Jones  Merched y Wawr, Capel Rhydfendigaid

Cynghorydd Sirol  Ifan Lloyd-Davies

Kathleen Miles-Evans

Gareth Owen – Cyngor Cymuned Ystrad Fflur

Alun Price-Jones – Cyngor Cymuned Cyngor Cymuned

Doug Rowbotham – Cyngor Cymuned Ystrad Fflur

M. Eleri Thomas – Clerc Cyngor Cymuned Ystrad Fflur

Elgan Williams – Cyngor Cymuned Ystrad Fflur

Jasmine Wilson (JW)-  Rheolwr Prosiect

**Ymddiheuriadau**:

Cymdeithas Treialon Cŵn Defaid Ffair Rhos (yn barod i wneud cyfraniad petai mudiadau pellach yn  gwneud hynny)

Parch. Aled Lewis – Eglwys Ystrad Fflur

Diolchodd JW i bawb am fynychu’r cyfarfod. Ei fwriad oedd tynnu'r gymuned at ei gilydd er mwyn dangos cefnogaeth i bobl yr Wcráin. Trefnir gweithgareddau codi arian i gwrdd â'r nod hwn. Ymdrechir i beidio ag amharu ar ymdrechion Apeliadau ac Achosion pellach. Gellid cyflwyno arian a gesglir i nifer o argyfyngau byd. Meddylir na ddatrysir y Gwrthdaro am hir amser; roedd hyn yn rhyddhau amser ar gyfer trefnu ystod eang o weithgareddau’n ystod y dyfodol.

**I'w benderfynu**: yr elusen i gefnogi a sicrhau bod y ganran uchaf o arian a godwyd yn cyrraedd yr achos.

Ystyriwyd Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC) fel un sefydliad posibl.

Cymorth Cristnogol hefyd, Y Groes Goch. Roedd Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn cynnig cymorth i 60-70 o deuluoedd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion. Roedd Gweithwyr Cymdeithasol ynghlwm ac athrawon ar gael i oresgyn rhwystrau ieithyddol.

Ystyriwyd prynu offer meddygol a deunyddiau eraill, y gellid eu hanfon yn uniongyrchol i Wcráin.

Pe bai teulu o’r Wcrain yn derbyn llety yn y gymuned, gellid cynnig cymorth. Dywedwyd bod pobl o Wlad Pwyl wedi integreiddio bellach o fewn y gymuned.

Roedd agor cartref mewn rhan i ffoaduriaid yn broses gymhleth ar hyn o bryd ond roedd yn opsiwn ar gyfer y dyfodol.

**Penderfynwyd yn unfrydol i drefnu gweithgaredd codi arian.**

**Pa fath o ddigwyddiad a phryd?**

**Ystyriwyd:**

**1. Cyngerdd:** Cyfraniadau a gwerthu tocynnau

**2. Gêm Bêl- Droed Elusennol –** Chwaraewyr Rhynglwadol i chwarae. Gellid cysylltu â Mr Dylan Ebenezer.

**Band Cymreig gyda'r nos & Arwerthiant yn y Pafiliwn**

**Gellid trefnu Raffl.**

**Byddai teuluoedd a'r genhedlaeth iau ynghlwm.**

**Cytunwyd yn unfrydol i gysylltu â'r Cadeirydd Richard Jones, Clwb Pêl-droed y Bont i ofyn tybed a fyddai'n bosibl trefnu Gêm Bêl-droed ym mis Medi 2022, (ar ddydd Sadwrn os oes modd).**

**Y Cam Nesaf: JW i gysylltu â Richard Jones,** Cadeirydd Clwb Pêl-droed y Bont.

**JW i hysbysu oll yn bresennol** o ganlyniad y drafodaeth a threfnu cyfarfod arall.

**i osod mewn lle Pwyllgor Gwaith** i yrru'r mater yn ei flaen. Daeth y cyfarfod I ben am 8.45pm.